

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llyfrgell yr Aelodau  
Dod o hyd i wybodaeth ar-lein

Rhagfyr 2010

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff syn cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

### Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth, ffoniwch ein desg ymholiadau yn Llyfrgell yr Aelodau, 3ydd Llawr.

Post: Llyfrgell yr Aelodau  
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: + 44 (029) 2089 8097

E-bost: [MembersLibrary@wales.gov.uk](mailto:MembersLibrary@wales.gov.uk)

Gwefan: [www.cynulliadcymru.org/  
bus-assembly-publications-research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Mewnwyd: <http://gsc/presidingoffic/mrs/index.htm>

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Llyfrgell yr Aelodau  
Dod o hyd i wybodaeth ar-lein

Alison Castree

Rhagfyr 2010

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau





# Dod o hyd i wybodaeth ar-lein

Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a swyddogion y Cynulliad i gael hyd i wybodaeth ddefnyddiol yn gyflym wrth chwilio ar y rhyngwrdd.

Mae gwahanol fathau o chwilotwyr a chyfeiriaduron ar-lein wedi'u cynnwys, yn ogystal â gwybodaeth ar greu strategaeth chwilio gref a gwerthuso gwefannau.

Yn olaf, rhestrir rhagor o ffynonellau gwybodaeth a lincs defnyddiol.

## Gwybodaeth sylfaenol

### Chwilotwyr

Nid yw chwilotwyr yn chwilio drwy'r We Fyd-eang yn uniongyrchol. Mae bob un yn chwilio drwy gronfa ddata o dudalennau ar y we y maent eisoes wedi'u casglu a'u storio gan ddefnyddio "corynod" sy'n chwilio drwy'r rhyngwrdd am dudalennau newydd.

Pan fydd defnyddiwr yn clicio ar y lincsa ddarperir yn y rhestr o ganlyniadau chwilio'r chwilotwr, bydd yn agor y fersiwn gyfredol o'r dudalen.

Mae llawer o dudalennau'n cael eu hepgor o chwilotwyr, gan gynnwys y rhan fwyaf o gatalogau llyfrgelloedd a chronfeydd data erthyglau, oherwydd na all corynod chwilotwyr gael mynediad atynt. Cyfeirir at y deunydd hwn fel y we anweledig oherwydd ni all chwilotwyr ei "weld".

Mae chwilotwyr yn ddefnyddiol pan fyddwch yn gwybod beth rydych yn chwilio amdano a phan allwch ei ddiffinio mewn ychydig o eiriau neu ymadroddion allweddol.

Dyma restr o'r chwilotwyr mwyaf poblogaidd:

- **Altavista**  
<http://uk.altavista.com/>
- **Bing** (chwilotwr Microsoft)  
<http://www.bing.com/?mkt=en-gb>
- **Duckduckgo**  
<http://duckduckgo.com/>
- **Exalead**  
<http://www.exalead.com/search/>
- **Google**  
<http://www.google.co.uk/>
- **Google:** fersiwn Gymraeg:  
<http://www.google.co.uk/webhp?hl=cy>
- **Yahoo**  
<http://uk.yahoo.com/?p=us>

## Chwilotwyr Meta

Mae chwilotwyr Meta yn chwilio drwy chwilotwyr eraill i ganfod yr ystod ehangaf o dudalennau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos canlyniadau gan Google, Yahoo, MSN ac Ask.

Dyma restr o rai o'r chwilotwyr Meta:

- **Whonu?**  
<http://www.whonu.com/index.php>
- **Dogpile**  
<http://www.dogpile.com/>
- **Metacrawler**  
<http://www.metacrawler.com/>
- **Trovando**  
<http://www.trovando.it/>

## Chwilotwyr sy'n dangos canlyniadau gweledol

Mae nifer o chwilotwyr erbyn hyn yn dangos canlyniadau chwilio mewn fformat mwy gweledol.

- Mae **Middlespot** yn dangos cipluniau o'r sgriniau oddi ar y gwefannau y mae wedi'u canfod:  
<http://middlespot.com/>
- Mae **Oscope** yn chwilio drwy Amazon, eBay, Flickr, Fotolia, Yahoo! ac YouTube. Gellir trefnu'r canlyniadau mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar ddewis y defnyddiwr:  
<http://www.oskope.com/>
- Mae **Search-cube** yn arddangos ciwb o grynoluniau sy'n dangos canlyniadau'r chwiliad:  
<http://search-cube.com/>
- Mae **Viewzi** yn arddangos cipluniau sydd â linciau o ganlyniadau'r chwiliad:  
<http://www.viewzi.com/>

## Cyfeiriaduron

Mae cyfeiriaduron yn trefnu'r data mewn hierarchaeth o'r canlyniadau mwyaf cyfyng i'r rhai ehangaf. Gallant fod yn ddefnyddiol os nad ydych yn sicr beth rydych yn chwilio amdano a bod angen gwybodaeth gyffredinol ar bwnc arnoch.

Dyma restr o rai o'r cyfeiriaduron mwyaf poblogaidd:

- **Cyfeiriadur Google**  
<http://www.google.com/dirhp>
- **Cyfeiriadur Yahoo**  
<http://dir.yahoo.com/>
- **Cyfeiriadur Best of the Web UK**  
<http://botw.org.uk/>

## Y we anweladwy

Y we anweladwy, neu'r we ddofn, yw tudalennau gwefannau na all y chwilotwyr eu mynegeo oherwydd eu bod wedi'u cuddio y tu ôl i ryngwyneb chwilio neu dudalen logio i mewn. Mae cronfeydd data, cyfnodolion a chatalogau llyfrgelloedd yn rhan o'r we anweladwy, ac maent yn aml yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.

Dyma rai gwefannau sy'n caniatáu defnyddwyr i chwilio drwy'r we anweladwy:

- **Intute**  
<http://www.intute.ac.uk/>
- **Complete Planet**  
<http://aip.completeplanet.com>
- **The WWW Virtual Library**  
<http://vlib.org/>

# Llunio strategaeth chwilio

## Strategaethau chwilio

Mae'n hawdd teipio ychydig o eiriau i mewn i Google, ond bydd llunio strategaeth chwilio briodol yn arbed amser drwy gynhyrchu canlyniadau llawer mwy perthnasol.

Bydd y broses o gynllunio strategaeth chwilio yn helpu i wneud eich syniadau ar bwnc yn gliriach, ac i sicrhau eich bod yn chwilio am y wybodaeth gywir.

Bydd y rhan fwyaf o chwilotwyr yn eich caniatáu i ddefnyddio dulliau chwilio Boolean i'ch helpu i ddiffinio eich pwnc:

- Mae **AND** yn culhau chwiliad i gynnwys yr holl brif eiriau, ee addysg **AND** Cymru
- Mae **OR** yn ehangu chwiliad, drwy restru canlyniadau gydag un neu ddau o brif eiriau neu'r holl brif eiriau a ddefnyddir, ee Cymru **OR** Cymreig, datganoledig **OR** datganoli
- Mae **NOT** yn tynnu gair neu eiriau o chwiliad, ee addysg **NOT** Lloegr
- Mae Google hefyd yn caniatáu'r defnydd o "-" yn lle'r gair **NOT**, ee addysg - Lloegr

Gellir defnyddio dyfynodau i chwilio am ymadrodd penodol. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth chwilio am deitl adroddiad neu gyhoeddiad.

- ee "Cynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol".

\* Mae'r swyddogaeth benagored (\*) yn eich galluogi i lenwi'r bylchau wrth chwilio.

- ee Mae "Pleidleisiodd Obama \* ar y mesur \*" yn dangos canlyniadau ar gyfer pleidleisiau gwahanol yr Arlywydd Obama ar wahanol fesurau.

Nodwch mai dim ond ar gyfer geiriau llawn, ac nid rhannau o eiriau, y gellir defnyddio'r swyddogaeth benagored yn Google.

## Dogfennau pdf

Chwilio am ddogfen pdf?

Mae ychwanegu **filetype:pdf** ar ôl eich prif eiriau chwilio gan ddefnyddio Google yn sicrhau mai dim ond dogfennau pdf a ddangosir.

- ee Fformiwla Barnett **filetype:pdf**



## Amrywiadau

A oes gan eich pwnc ystyron neu sillafiadau amgen?

Materion i'w hystyried:

- Mae gorlifiad olew BP wedi'i ddisgrifio fel "the BP oil leak" neu "the BP oil disaster".
- Weithiau, mae Owain Glyndŵr yn cael ei Seisnigo yn y wasg Brydeinig i Owen Glendower.
- A yw'r ffurfiau unigol a lluosog o'r term yn wahanol? ee plentyn, plant; datganoledig, datganoli
- Mae hyn yn hynod o bwysig wrth chwilio am dermau meddygol ac enwau anifeiliaid a phlanhigion yn Saesneg a allai fod ag enwau Lladin hefyd. ee heart attack **OR** cardiac arrest **OR** myocardial infraction.

Mae Google yn cynnig mwy o awgrymiadau a chyngor defnyddiol ar gyfer chwilio yn:

<http://www.google.co.uk/help/features.html>

## Gwerthuso'r canlyniadau

Os yw'r broses chwilio wedi cynhyrchu gormod o ganlyniadau, edrychwch ar y prif eiriau a ddefnyddiwyd. A ydynt yn rhy gyffredinol? A allai term mwy penodol gyfyngu ar y canlyniadau?

Os nad yw'r broses chwilio wedi cynhyrchu digon o ganlyniadau, a fyddai defnyddio termau mwy cyffredinol yn fwy defnyddiol? A ydych wedi nodi a chynnwys unrhyw eiriau sydd â mwy nag un ystyr?

# Gwerthuso tudalennau ar y we

## Ffynhonnell wybodaeth

Gall unrhyw un gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngwrwyd a gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng ffynonellau dibynadwy a rhai annibynadwy.

Defnyddiwch y geiriau beth, pwy, pam a phryd i'ch helpu i werthuso'r tudalennau.

- **Pa** wybodaeth sy'n cael ei darparu, ac a yw'n addas? A yw'n rhy gyffredinol neu arbenigol? A yw'r ffynonellau wedi'u cyfeirnoddi?
- **Pwy** sydd wedi cynhyrchu'r wybodaeth? A yw enw'r awdur yn ymddangos, ac a ellir cadarnhau ei gymwysterau? A yw'n awdurdod ar y pwnc? A oes manylion cyswllt ar gael?
- **Pwy** sydd wedi cyhoeddi'r wefan? A yw'n wefan bersonol, neu a yw'n cael ei darparu gan sefydliad mwy? Edrychwch ar yr url - a yw'n sefydliad addysgol (yn gorffen â .ac.uk / .edu), yn sefydliad (.org) neu adran o'r llywodraeth (.gov)?
- **Pam** y cynhyrchwyd y wybodaeth? A yw'n ceisio dylanwadu ar y darlennydd i brynu neu i feddwl rhywbeth? A oes cyfeiriad at waith ymchwil arall? A allai'r wybodaeth fod yn rhagfarnllyd?
- **Pryd** y crëwyd y dudalen, ac a yw wedi cael ei diweddarau ers hynny? A yw'n ddigon cyfredol ar gyfer eich anghenion?

## Dyfyniadau

Os ydych yn chwilio am ddyfyniad enwog ar y rhyngwrwyd, mae'n bosibl y byddwch yn cael hyd i fersiynau gwahanol ar wefannau gwahanol.

Mae *The Oxford Dictionary of Quotations* ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau os oes angen cadarnhau geiriad dyfyniad arnoch.

# Rhagor o wybodaeth

## Gwybodaeth y llywodraeth wedi'i archifo

Mae'r Archifau Cenedlaethol yn cadw gwybodaeth y Llywodraeth drwy archifo'r tudalennau ar wefan llywodraeth ganolog y DU yn rheolaidd.

Mae'r archif yn cynnwys gwefan 10 Downing Street a ddechreuodd Tony Blair, a chipluniau o wefannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/webarchive/default.htm>

Bydd unrhyw dudalennau sydd wedi'u cadw gan y cynllun â baner goch yr Archifau Cenedlaethol ar frig y dudalen, fel y gwelir isod:



## Ffynonellau gwybodaeth allweddol

Mae tîm Llyfrgell yr Aelodau wedi llunio **Ffynonellau Gwybodaeth Allweddol**, sef canllawiau ar y we ar gyfer canfod dogfennau allweddol a gwybodaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Senedd y DU.